Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

18 Mawrth 2008

Dysgwyr yn cael mwy o ddewis a hyblygrwydd gyda dewislenni cydweithredol

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn heddiw yn canolbwyntio ar y ffordd orau o roi dewis ehangach a hyblygrwydd astudio i ddysgwyr, yn unol â nodau menter Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y fenter hon yw annog mwy o bobl ifanc i gyflawni eu potensial er mwyn iddynt fod wedi'u paratoi yn well ar gyfer byd gwaith a dod yn ddinasyddion mwy gwybodus a mwy gweithredol.

Mae adroddiad *Dewis a hyblygrwydd ar gyfer dysgwyr 14-19* Estyn yn nodi enghreifftiau o arfer dda, ond mae hefyd yn amlygu'r hyn y mae angen ei wneud i fodloni nodau'r fenter.

Mae thema allweddol o'r adroddiad yn canolbwyntio ar *ddewislenni*[1] ac yn pwysleisio er bod y dewis o gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr yn cynyddu, nid oes gan y rhan fwyaf o ddysgwyr yr hyblygrwydd i ddewis o'r ystod lawn o gyrsiau sydd ar gael yn eu hardal.

Dylai fod dysgwyr yn gallu dewis cyfuniad o gyrsiau addysg gyffredinol a chyrsiau cymhwysol neu alwedigaethol, ond mae llawer o ysgolion yn credu o hyd bod cyrsiau galwedigaethol ond yn addas ar gyfer dysgwyr llai abl. Mae llawer o ysgolion yn amharod i gynnig y cyrsiau hyn oherwydd eu bod yn ansicr ynglŷn â'r graddau y mae eu cyrhaeddiad yn cael ei gofrestru mewn dangosyddion perfformiad sydd wedi'i gofnodi yn gyhoeddus.

[1] Mae *Dewislenni* yn cynnwys yr holl gyrsiau sy'n arwain at gymwysterau cymeradwy ac yn ffurfio elfen ffurfiol llwybr unigol dysgwr.

Nid yw dysgwyr yn aml yn gallu dewis o'r ystod lawn o gyrsiau sydd ar gael yn eu hardal, ond mae'n rhaid iddynt ddewis o'r hyn y gall eu darparwr eu hun ei gynnig. Lle mae ysgolion a cholegau wedi cynllunio eu dewislenni ar y cyd, maent wedi gallu trefnu bod ystod lawn o gyrsiau ar gael i ddysgwyr, os ydynt yn fodlon symud i sefydliad arall, teithio rhwng darparwyr neu ddefnyddio dysgu o bell.

"Er bod llawer o ysgolion yn annog eu dysgwyr i barhau yn y chweched dosbarth, dydyn nhw ddim bob tro yn rhoi gwybodaeth gywir a diduedd iddyn nhw am y dewisiadau sydd ar gael iddyn nhw gan ddarparwyr eraill" meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

"Dylai darparwyr gydweithio i gydgordio eu hamserlenni ac ystyried y bylchau mewn dewislenni lleol wrth gynllunio eu darpariaeth i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal i'w hawl," ychwanegodd Dr. Maxwell

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a gwasanaeth cyngor o ansawdd uchel.

- Mae adroddiad Estyn, 'Dewis a Hyblygrwydd ar gyfer dysgwyr 14-19', wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

  - dadansoddiad o gynlluniau datblygu blynyddol pob rhwydwaith 14-19 (grwpiau strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal awdurdod lleol yw rhwydweithiau 14-19, a sefydlwyd fel rhan o fenter Llwybrau Dysgu 14-19)

  - ymweliadau ag 11 o rwydweithiau a thystiolaeth a gafwyd yn ystod arolygiadau ardal ym Merthyr Tudful a Wrecsam

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu a ariennir gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae Estyn yn cyhoeddi tri adroddiad arall sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 – 19, sef gwyddoniaeth, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Cynhelir cynhadledd ar bob un o'r pedwar adroddiad arolwg 14-19 yn haf 2008.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Lisa Jordaan
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464